

Canllaw i Etholwyr:

Cyllid ar gyfer addysg i
oedolion ac ôl-raddedigion
2018/19



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 7301**
E-bost: **Phil.Boshier@assembly.wales**
Twitter: **[@SeneddResearch](https://twitter.com/SeneddResearch)**
Blog: **SeneddResearch.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Canllaw i Etholwyr:

Cyllid ar gyfer addysg i oedolion ac ôl-raddedigion 2018/19

Awdur: Phil Boshier

Dyddiad: Awst 2018

Rhif yr ymholiad: FAQ18-014

Holir y Gwasanaeth Ymchwil yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r canllaw cyflym hwn yn cynnwys gwybodaeth am rai o'r cwestiynau a ofynnir inni fwyaf aml. Nid yw'n ganllaw cynhwysfawr, a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Gyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol â chymwysterau addas sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.



Cynnwys

1. Y Canllaw hwn	1
2. Yn gryno, beth sydd ar gael?.....	2
Addysg Uwch.....	2
Mathau eraill o astudiaeth	3
3. Astudiaeth Ôl-raddedig	4
Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer Gradd Meistr	4
Bod yn gymwys i gael benthyciad Meistr.....	4
Swm Benthyciad Meistr	5
Cymorth ôl-raddedig ychwanegol	6
Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (DSA).....	6
Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer myfirwyr TAR.....	7
Cymhelliant Hyfforddi Athrawon	7
Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer astudiaeth Doethuriaeth	7
Cymhwysedd	7
Symiau Benthyciadau Doethuriaeth.....	9
Rwyf wedi astudio o'r blaen.....	9
Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer rhaglenni gwaith cymdeithasol.....	9
Cymhwysedd	10
Y fwrsariaeth.....	10

4. Ffynonellau eraill o gyllid oedolion ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig ac addysg nad yw'n addysg uwch.....	12
Cynghorau Ymchwil (Ymchwil ac Arloesi yn y Deyrnas Unedig).....	12
Y gyfraith.....	12
Dawns a Drama.....	13
Trwy gyfrwng y Gymraeg.....	13
Elusennau ac ymddiriedolaethau.....	13
Benthyciadau Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa (PCDL).....	15
5. Rhagor o wybodaeth.....	16

1. Y Canllaw hwn

Bwriad y canllaw hwn yw helpu dysgwyr sy'n oedolion a dysgwyr ôl-raddedig i ddeall pa gymorth ariannol a allai fod ar gael i'w helpu i astudio naill ai gwrs addysg uwch neu fath arall o gwrs nad yw'n gwrs prifysgol.

Os ydych chi'n fyfyrwr israddedig, dylech ddarllen y canllaw hwn: **Cymorth ariannol i fyfyrwr israddedig mewn Addysg Uwch 2018/19.**

Os ydych chi'n fyfyrwr addysg bellach, dylech ddarllen y canllaw hwn. **Cymorth ariannol i fyfyrwr addysg bellach 2018/19.**

Os gwnaethoch ddechrau eich astudiaeth cyn mis Awst 2018, dylech ddarllen fersiwn blaenorol y canllaw hwn er gwybodaeth.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn hynod gymhleth gyda llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod yr ymadrodd "fel arfer" yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

Dylech bob amser wirio gyda Cyllid Myfyrwyr Cymru ynglŷn â'ch amgylchiadau penodol chi.

2. Yn gryno, beth sydd ar gael?

Addysg Uwch

Mae cymorth ariannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth. Mae'r cymorth hwn ar gael i astudiaeth llawn amser a rhan amser.

Mae'r Benthyciadau Meistr a'r Benthyciadau Doethuriaeth hyn ar gael gan Lywodraeth Cymru. Nid ydynt yn destun prawf modd, ond mae'n rhaid eu talu'n ôl.

Yn wahanol i gymorth ariannol israddedig, lle caiff y cymorth ei rannu rhwng cymorth gyda'ch hyfforddiant a chymorth gyda'ch costau byw, fel myfyriwr Meistr neu Ddoethuriaeth byddwch yn cael un swm o arian a chi fydd yn dewis sut i'w ddefnyddio.

- Os ydych chi'n fyfyriwr Meistr, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd, gallwch gael benthyciad o hyd at £13,000, os yw'ch cwrs yn dechrau rhwng 01 Awst 2018 a 31 Gorffennaf 2019. Gallwch rannu hwn yn ôl eich dymuniad rhwng talu ffioedd a thalu am gostau byw. Os yw'ch cwrs yn hirach na blwyddyn (efallai oherwydd eich bod yn ei ddilyn rhan amser) caiff y swm ei rannu'n gyfartal rhwng blynyddoedd.
- Os ydych chi'n fyfyriwr Meistr sy'n astudio mewn prifysgol Cymru, mae'n bosibl y gallwch gael cymorth ychwanegol, fel arfer ar ffurf grant, gan eich prifysgol yng Nghymru. Daw hwn o gronfa Llywodraeth Cymru i helpu myfyrwyr Meistr ôl-raddedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb i brifysgolion Cymru sut i wario eu cyfran o'r gronfa, felly dylech siarad â'ch prifysgol yng Nghymru i weld beth sydd ar gael i chi ac os ydych chi'n bodloni eu meini prawf. Caiff yr arian hwn ei dalu i brifysgolion yng Nghymru ac felly ni fyddwch yn gymwys os ydych chi'n astudio mewn prifysgol y tu allan i Gymru.
- Os ydych chi'n fyfyriwr Doethuriaeth, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd, gallwch gael benthyciad o hyd at £25,000, os yw'ch cwrs yn dechrau o 01 Awst 2018. Yn yr un modd â'r benthyciad Meistr, gallwch ei wario fel y dymunwch rhwng taliadau ffioedd dysgu a chymorth costau byw. Caiff ei dalu fel arfer yn gyfartal dros flynyddoedd eich cwrs er mae uchafswm y gellir ei dalu yn y flwyddyn gyntaf (byddai

hyn yn berthnasol i chi yn bennaf os gwnaethoch gais am y benthyciad ar ôl eich blwyddyn gyntaf ar y cwrs).

Mae ffynonellau cyllido eraill ar gael fel y Lwfans Myfyrwyr Anabl a thrwy gyrff ac elusennau amrywiol eraill, y cânt eu disgrifio isod.

Fel rheol, ni all myfyrwyr Meistr a Doethuriaeth gael Lwfans Dibynyddion fel Grantiau Gofal Plant, Lwfans Dysgu i Rieni a Grant Dibynyddion Oedolion.

Mae gwybodaeth am sut i wneud cais ar gael ar [**wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**](#).

Mathau eraill o astudiaeth

Os ydych chi'n fyfyrwr mewn addysg bellach ac yn 19 oed neu'n hŷn bydd **y canllaw hwn** yn eich helpu i ddeall y cymorth ariannol y gallwch ei gael.

Os ydych chi'n bwriadu astudio math arall o gwrs nad yw'n seiliedig ar waith, addysg oedolion yn y gymuned, neu addysg bellach neu uwch, mae'ch opsiynau ariannu yn eithaf gwahanol. Er bod Benthyciadau Proffesiynol a Datblygu Gyrfa ar gael gan fanciau, mae'r cynllun yn dod i ben yn fuan iawn (mae'n rhaid i chi wneud cais erbyn 25 Ionawr 2019).

Eich prif opsiynau yn yr achosion hyn mae'n debyg yw ariannu'r rhaglen eich hun, cael cyflogwr i ariannu'r cwrs neu eich noddi, neu wneud cais i elusen neu gorff tebyg a allai helpu.

3. Astudiaeth Ôl-raddedig

Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer Gradd Meistr

Os yw'ch cwrs yn dechrau o 01 Awst 2018 gallech wneud cais am fenthyciad Meistr o hyd at £13,000 ac o bosibl grant ychwanegol gan eich prifysgol yng Nghymru.

Bod yn gymwys i gael benthyciad Meistr

Gall y rheolau ynghylch cymhwysedd fod yn gymhleth. Nid diben y canllaw hwn yw cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau unigol posibl. Ei ddiben yw bod yn ganllaw cyffredinol yn unig. Dylech geisio cyngor arbenigol gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** os nad ydych yn sicr am eich cymhwysedd.

At ei gilydd, mae cymhwysedd yn dibynnu ar bob un o'r meini prawf a ganlyn:

1. Lle'r ydych yn byw (a'ch statws cenedligrwydd a phreswyliaeth)
2. Eich cwrs
3. Eich prifysgol neu eich coleg
4. Eich oedran
5. Astudiaethau blaenorol

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth:

- Rhaid i chi fod:
 - yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswlydd sefydlog' (dim cyfyngiadau ar yr hyd y gallwch aros yn y DU) a
 - fel arfer yn byw yng Nghymru (nid yw'n cyfrif os ydych yn byw yng Nghymru er mwyn astudio yn unig, er enghraifft tra'n astudio eich gradd israddedig) ac
 - wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs; neu
 - yn wladolyn yr UE sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eu cwrs, sydd wedi bod yn byw fel rheol yn yr AEE neu'r Swistir am y tair blynedd diwethaf, ac a fydd yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru.

- Rhaid i'ch cwrs:
 - fod yn radd Meistr lawn annibynnol (ddim yn gwrs ychwanegol, neu dystysgrif ôl-raddedig neu'n diploma)
 - fod gwerth 180 credyd (dyma'r nifer safonol o gredydau ar gyfer gradd Meistr lawn, ond siaradwch â'ch prifysgol os nad ydych chi'n siŵr)
 - dechrau ar ôl 01 Awst 2018 i fod yn gymwys ar gyfer y benthyciad £13,000
 - Astudio'n llawn neu'n rhan amser
- Rhaid i'ch sefydliad neu goleg addysg uwch
 - gael ei ariannu'n gyhoeddus a rhaid iddo fod yn y DU
 - neu os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn cwrs sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol gan Lywodraeth Cymru (gallwch gael gwybod am hyn gan y brifysgol)
- Rhaid i chi fod yn iau na 60 oed ar y diwrnod y mae'ch cwrs yn dechrau.

Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf preswyliaeth a chenedligrwydd uchod, mae rhai meini prawf eraill megis bod yn ffoadur. Dylech edrych ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael y rheolau manwl.

Dylech wneud cais am gyllid israddedig os ydych yn gwneud cwrs Meistr Integredig neu gwrs Meistr Pensaernïaeth (MArch) (er mae'n bosibl y gallwch gael Benthyciad Meistr o hyd os ydych yn astudio MArch rhan amser, neu os na allwch gael y cyllid israddedig fel arall).

Gellir gweld y meini prawf cymhwysedd manwl ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru a dylech edrych ar y meini prawf yn seiliedig ar eich amgylchiadau eich hun.

Swm Benthyciad Meistr

Gallwch gael hyd at £13,000 drwy'r Benthyciad Meistr (y bydd angen i chi ei dalu'n ôl).

Os ydych chi'n astudio'n rhan amser ac felly y bydd yn cymryd mwy na blwyddyn i chi gwblhau'r cwrs, caiff yr arian ei rhannu yn unol â'r tabl isod.

Tabl 1 – Benthyciad Meistr

Hyd cwrs blynyddoedd academaidd	Uchafswm Benthyciad Meistr Ôl-raddedig sydd ar gael y flwyddyn			
	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
1 flynedd	£13,000			
2 flynedd	£6,500	£6,500		
3 blynedd	£4,333	£4,333	£4,333	
4 blynedd	£3,250	£3,250	£3,250	£3,250

Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru

Cymorth ôl-raddedig ychwanegol

Yn 2018, gwnaeth Llywodraeth Cymru ryddhau arian i brifysgolion Cymru fel y gallent ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb i brifysgolion yng Nghymru benderfynu ar eu meini prawf eu hunain ar gyfer dyfarnu'r cymorth hwn i fyfyrwyr a faint fydd yn cael ei dalu i fyfyrwyr. Dylech siarad â'ch prifysgol ynglŷn â'r cymorth hwn. Er mai nhw sy'n cael penderfynu beth yw unrhyw ddyfarniad, gallai'r dyfarniad fod yn swm sylweddol (tua £3,400) nad oes angen ei dalu'n ôl.

Sylwch fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r arian penodol hwn i brifysgolion yng Nghymru yn unig - os nad ydych chi'n astudio mewn prifysgol yng Nghymru, ni fyddwch yn gallu gwneud cais am unrhyw arian o'r gronfa hon. Ond, i fod yn glir, byddwch yn dal i allu gwneud cais am Fenthyciad Meistr.

Fel arfer, ni fyddwch yn gallu cael Lwfansau Dibynyddion hefyd fel y Lwfans Dysgu i Rien. Fodd bynnag, byddwch yn dal i allu fod yn gymwys i gael Lwfansau Myfyrwyr Anabl.

Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

Nid yw'r Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA) ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig yr un peth â'r cynllun ar gyfer myfyrwyr israddedig.

Os ydych chi'n gymwys, bydd un gyfradd safonol o £10,590 y flwyddyn ar gyfer astudiaeth llawn amser a chyfradd pro rata ar gyfer astudiaeth rhan amser. Gallwch gael DSA hyd yn oed os nad ydych chi'n gwneud cais am Fenthyciad Meistr.

Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer myfyrwyr TAR

Os ydych chi'n astudio rhaglen TAR, byddwch yn gymwys am werth blwyddyn o becyn israddedig waeth beth fo'ch astudiaeth yn y gorffennol. Dylech ddarllen **y canllaw hwn** i'ch helpu i ddeall y pecyn israddedig sydd ar gael o fis Medi 2018.

Cymhelliant Hyfforddi Athrawon

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cymhelliant ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon sydd ar ben y cymorth ariannol arddull israddedig y cyfeirir ato uchod.

Gellir gweld y **cynllun ar gyfer 2018 yma**.

Mae'n werth rhwng £3,000 a £20,000, gyda'r swm uchaf i'r rhai sydd wedi cael gradd dosbarth cyntaf yn eu gradd neu sydd â gradd Meistr neu PhD, ac sy'n astudio cyrsiau uwchradd Israddedig mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg neu TGCh (gwyddorau cyfrifiadurol).

Gellir gweld y **tabl llawn o hawliadau yma**.

Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer astudiaeth Doethuriaeth

Gall myfyrwyr wneud cais am Fenthyciad Doethuriaeth o hyd at £25,000. Nid yw'n destun prawf modd ond mae'n rhaid ei dalu'n ôl. Fe'i telir yn uniongyrchol i chi ac fel arfer caiff ei rannu'n gyfartal dros flynyddoedd eich cwrs. Fel y Benthyciad Meistr, gallwch chi benderfynu sut i'w rannu rhwng ffioedd a chostau byw.

Cymhwysedd

Ar y cyfan, mae'r cymhwysedd yn debyg i'r Benthyciad Meistr ac yn dibynnu ar bob un o'r meini prawf canlynol:

1. Lle'r ydych yn byw (a'ch statws cenedligrwydd a phreswyliaeth)
2. Eich cwrs
3. Eich prifysgol neu eich coleg
4. Eich oedran
5. Astudiaethau blaenorol

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth:

- Rhaid i chi fod:
 - yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswylydd sefydlog' (dim cyfyngiadau ar yr hyd y gallwch aros yn y DU) a
 - fel arfer yn byw yng Nghymru (nid yw'n cyfrif os ydych yn byw yng Nghymru er mwyn astudio yn unig, er enghraifft tra'n astudio eich gradd israddedig) ac
 - wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs; neu
 - yn wladolyn yr UE sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eu cwrs, sydd wedi bod yn byw fel rheol yn yr AEE neu'r Swistir am y tair blynedd diwethaf, ac a fydd yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru.
- Rhaid i'ch cwrs:
 - fod yn gwrs Doethuriaeth llawn ac annibynnol (nid yn gwrs ychwanegol);
 - para rhwng 3 ac 8 mlynedd
 - dechrau ar ôl 01 Awst 2018
 - astudio'n llawn neu'n rhan amser
- Rhaid i'ch sefydliad neu goleg addysg uwch
 - gael ei ariannu'n gyhoeddus a rhaid iddo fod yn y DU
 - neu os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn cwrs sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol gan Lywodraeth Cymru (gallwch gael gwybod am hyn gan y brifysgol)
 - os yw mwy nag un brifysgol yn gyfrifol am ddarparu eich cwrs a bod y llall dramor, byddwch ond yn gymwys os mai'r sefydliad yn y DU yw'r prif sefydliad ar gyfer darparu eich cwrs a'ch bod yn treulio o leiaf 50% o'ch amser astudio dros y cwrs cyfan yn y DU
- Rhaid i chi fod yn iau na 60 oed ar y diwrnod y mae'ch cwrs yn dechrau.

Mae nifer o feini prawf sy'n golygu na fyddwch yn gymwys i gael Benthyciad Doethuriaeth gan gynnwys os ydych wedi cael arian y Cyngor Ymchwil, neu arian o'r cynllun Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS 2). Mae manylion llawn ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf preswyliaeth a chenedligrwydd uchod, mae rhai meini prawf eraill megis bod yn ffoadur.

Dylech edrych ar wefan [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#) i weld y meini prawf cymhwysedd llawn.

Symiau Benthyciadau Doethuriaeth

Gallwch gael benthyciad o hyd at £25,000 ar gyfer y cwrs cyfan sy'n cael ei rannu rhwng bob un o flynyddoedd eich cwrs. Felly, er enghraifft, os yw'ch cwrs dros 4 blynedd a'ch bod yn cymryd y benthyciad llawn o £25,000, byddwch yn cael £6,250 y flwyddyn dros eich cwrs.

Fodd bynnag, ni allwch chi gael mwy na £10,609 mewn unrhyw flwyddyn o'ch cwrs. Mae hyn yn bwysig os oeddech am wneud cais am y benthyciad ar ôl blwyddyn gyntaf eich cwrs. Pe byddech chi'n gwneud hynny, mae'n bosibl na fyddwch chi'n cael y £25,000 llawn. I esbonio: os oedd eich cwrs yn 3 mlynedd o hyd a'ch bod yn gwneud cais yn yr ail flwyddyn, byddech ond yn gallu cael cyfanswm o £21,218 gan y byddai taliad bob blwyddyn yn gyfyngedig i £10,609, nid hanner y £25,000 (£12,500).

Fel arfer, ni fyddwch yn gallu cael Lwfansau Dibynyddion hefyd fel y Lwfans Dysgu i Rien.

Fodd bynnag, byddwch yn dal i allu fod yn gymwys i gael Lwfansau Myfyrwyr Anabl. Gallwch ddarllen am y Lwfansau Myfyrwyr Anabl o dan yr adran '[Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer Gradd Meistr](#)' yn y canllaw hwn i gael gwybodaeth am hyn.

Rwyf wedi astudio o'r blaen

Fel rheol, ni fyddwch yn gallu cael Benthyciad Doethuriaeth neu Feistr os oes gennych gymhwyster cyfatebol neu uwch yn barod (er enghraifft os oes gennych radd Meistr yn barod a'ch bod yn gwneud cais am Fenthyciad Meistr). Ni fyddwch ychwaith yn gallu cael Benthyciad Doethuriaeth neu Feistr os ydych chi'n bwriadu ychwanegu at eich dyfarniad (er enghraifft os oes gennych Ddiploma Ôl-raddedig eisoes a'ch bod am wneud traethawd hir i gael gradd Meistr llawn).

Os ydych wedi cael Benthyciad Meistr neu Ddoethuriaeth o'r blaen, ni fyddwch yn cael un arall fel arfer oni bai eich bod wedi gadael eich cwrs o dan amgylchiadau penodol.

Cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer rhaglenni gwaith cymdeithasol

[Mae Gofal Cymdeithasol Cymru](#) yn gweinyddu Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gradd Meistr cymeradwy mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru. Gellir gweld [manyllion llawn yma](#).

Mae nifer gyfyngedig o fwrsariaethau ar gael (224 ar gyfer 2018/19) a chânt eu dyrannu gan y Cyngor i bob rhaglen.

Mae hyn yn golygu, er bod 224 o fwrsariaethau, bydd y rhaglen rydych am ei hastudio yn cael dyraniad llai gan y Cyngor.

Cymhwysedd

Mae cymhwysedd yn dibynnu ar y meini prawf cyffredinol canlynol - mae'n rhaid:

- Eich bod wedi byw yng Nghymru am 12 mis yn y 3 blynedd cyn eich cwrs (mae'r meini prawf preswyllo yn gymhleth a gellir ei weld yn llawn **yma**).
- Peidio â chael cymorth ariannol i hyfforddi gan gyflogwr neu unrhyw sefydliad arall
- Astudio gradd Meistr gwaith cymdeithasol wedi'i chymeradwyo gan Gyngor Gofal Cymru
- Cael cynnig gan brifysgol o Gymru i astudio gradd Meistr Gwaith Cymdeithasol wedi'i chymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cael eich enwebu gan eich prifysgol i Gofal Cymdeithasol Cymru

Ceisiadau yn agor rhwng canol Gorffennaf 2018 a 01 Medi 2018 a gallwch astudio'n llawn amser neu'n rhan amser. Rhaid i chi wneud cais arall bob blwyddyn os yw'ch cwrs yn fwy na blwyddyn o hyd.

Bydd myfyrwyr sydd wedi'u henwebu yn cael eu gwahodd i lenwi cais a fydd yna'n cael ei asesu. Nid yw enwebiad yn sicrhau eich bod yn cael bwrsariaeth.

Gellir gweld **[manylion llawn am gymhwysedd yma](#)** a dylech ddarllen y rhain yn ofalus gan ystyried eich amgylchiadau eich hun.

Y fwrsariaeth

Mae gan y cymorth sydd ar gael nifer o rannau.

Y fwrsariaeth wrth astudio gradd Meistr yw £13,280 (£6,640 y flwyddyn). Nid yw'n destun prawf modd ond mae'r lwfansau posibl ychwanegol (gofal plant, lwfans dibyniaeth oedolion a lwfans dysgu i rieni) yn destun prawf modd. Os ydych chi'n fyfyrwr rhan amser, byddwch yn cael cyfradd pro rata yn dibynnu ar ba mor hir yw'ch cwrs.

Gallech hefyd gael Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer, sydd gyfwerth â £7.50 fesul diwrnod cyfle dysgu ymarfer. Gellir gweld manylion am y lwfans **yma gan gynnwys manylion am sut i wneud cais am dreuliau** ychwanegol.

Fel arfer, nid oes hawl gan fyfyrwyr Meistr gael Lwfansau i Ddibynyddion, ond os cewch eich derbyn i gael bwrsariaeth Meistr Gwaith Cymdeithasol, gallech hefyd fod yn gymwys i gael Grant Gofal Plant (hyd at £8,330 ar gyfer un plentyn a £14,285 ar gyfer dau blentyn neu fwy); Grant Dibynyddion i Oedolion o hyd at £2,645, a Lwfans Dysgu i Rieni o hyd at £1,505. Nid yw'r lwfansau hyn yr un lwfansau â'r hyn a welwch gan Gyllid Myfyrwyr Cymru (er bod eu henwau yn debyg) felly bydd angen i chi drafod y rhain gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhain yn destun prawf modd.

Gall myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol y dyfernir bwrsariaeth Meistr iddynt fod yn gymwys hefyd i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl – eto nid yw hyn yr un lwfansau â'r hyn a welwch ar wefan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Y cyfraddau yw:

- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Lwfans Cynorthwy-ydd Anfeddygol: hyd at £13,070 y flwyddyn
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Lwfans Cyfarpar Arbenigol: hyd at £5,165 am hyd y cwrs.
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Lwfans Cyffredinol: hyd at £1,730 y flwyddyn
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am Gostau Teithio: Gwariant sy'n rhaid ei dalu er mwyn astudio

Fel y soniwyd, caiff y lwfansau ychwanegol hyn eu gweinyddu gan Gofal Cymdeithasol Cymru felly dylech ddarllen eu **rheolau ynghylch bod yn gymwys** a'r symiau a pheidio â dibynnu ar Gyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybodaeth.

4. Ffynonellau eraill o gyllid oedolion ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig ac addysg nad yw'n addysg uwch

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynghylch ffynonellau cyllid posibl eraill. Mae'n trafod rhaglenni addysg uwch ac addysg nad yw'n uwch a allai fod yn fwy galwedigaethol.

Cynghorau Ymchwil (Ymchwil ac Arloesi yn y Deyrnas Unedig)

Corff newydd yw Ymchwil ac Arloesi yn y DU sy'n dwyn ynghyd y saith **Cyngor Ymchwil** yn y DU ynghyd â Innovate UK a Research England.

Mae gan bob Cyngor Ymchwil ei bortffolio ei hun sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o wyddorau meddygol a biolegol i seryddiaeth, ffiseg, cemeg a pheirianneg, gwyddorau cymdeithasol, economeg, y gwyddorau amgylcheddol a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

Mae pob un o'r Cynghorau Ymchwil **yn ystyried** cyllido ôl-raddedigion unigol, ond mae'r broses o sicrhau cyllid gan unrhyw Gyngor Ymchwil yn gystadleuol, ac nid yw'r ffaith bod myfyriwr wedi cael lle ar raglen ôl-radd yn golygu o anghenraid y dyfernir cyllid iddo. Ceir gwybodaeth fanylach ar wefan **Ymchwil ac Arloesi yn y Deyrnas Unedig**.

Y gyfraith

Mae **Cymdeithas y Cyfreithwyr** yn cynrychioli cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu cymorth mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys llobio a thrafod gyda rheoleiddwyr, y llywodraeth ac eraill, a chynnig hyfforddiant a chyngor.

Mae'n gweinyddu cynllun mynediad o'r enw'r **Diversity Access Scheme** i helpu pobl ymroddedig, eithriadol o ddawnus i oresgyn rhwystrau cymdeithasol, economaidd neu bersonol rhag dod yn gyfreithiwr. Gall y cynllun hwn ddarparu ysgoloriaethau llawn a rhannol i ariannu'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol; lleoliadau gwaith; a chefnogaeth mentora. Daeth ceisiadau ar gyfer 2018 i ben ym mis Ebrill ond disgwylir iddynt agor eto yn 2019.

Dawns a Drama

Mae'r cynllun DaDA (Dance and Drama Awards) yn cynnig cymorth seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn nifer o sefydliadau dawn a drama preifat yn Lloegr.

Bwriedir i gyllid DaDA gyfrannu at gostau i unigolion dawnus sydd am ddod yn actorion a dawnswyr proffesiynol. Mae swm y grantiau yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a lle mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio. Mae rhagor o wybodaeth am gynllun 2018/19 i'w gweld ar wefan [GOV.UK](https://www.gov.uk).

Trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** yn cynnig hyd at 10 Ysgoloriaeth Meistr y flwyddyn, gwerth hyd at £3,000 i fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn gradd Meistr sy'n cael ei ddarparu naill ai'n rhannol neu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, daeth ceisiadau ar gyfer 2018/19 i ben ar 11 Gorffennaf 2018, ond byddant yn ailagor ym mis Medi 2018 ar gyfer myfyrwyr 2019/20.

Elusennau ac ymddiriedolaethau

Prif ddiben **Sefydliad Sidney Perry** yw helpu myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd gyntaf, ond mae hefyd yn cefnogi myfyrwyr ar gyrsiau ail radd sy'n gysylltiedig â'u graddau cyntaf. Y bwriad yw bod y grantiau yn ategol, a'r uchafswm grant yw £1,000. Gall y Sefydliad ddarparu cymorth ariannol i unigolion na fyddent fel arall yn gallu bwrw ymlaen â'u haddysg oherwydd diffyg arian. Rhaid i'r myfyrwyr fod yn iau na 35 oed pan fydd y cwrs yn dechrau. Mae canllawiau a ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Sefydliad.

Gallai **Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen** gynnig grantiau i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn astudiaeth ôl-raddedig, yn enwedig gwaith ymchwil. **Mae canllawiau i fyfyrwyr ar wneud cais** ar wefan yr ymddiriedolaeth. Y dyddiad cau i wneud cais ar gyfer cyrsiau sy'n cychwyn ym mis Medi / Hydref mewn unrhyw flwyddyn (neu gyda dyddiad dechrau hwyrach yn yr un flwyddyn academaidd) yw'r 30 Mehefin blaenorol. Mae ffurflenni cais ar gael o 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn.

Nod **Ymddiriedolaeth Addysgol Syr Richard Stapley** yw cefnogi myfyrwyr meddygaeth, deintyddiaeth neu wyddoniaeth filfeddygol, a myfyrwyr ôl-raddedig ym mhob maes astudio sydd dros 24 oed yn y DU. I wneud hyn, maent yn darparu grantiau, sydd fel arfer rhwng £400 a £1,200. Gellir cael mwy o wybodaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth neu drwy anfon e-bost at admin@stapleytrust.org. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau grant ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19

wedi dod i ben. Bydd pecynnau cais ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20 ar gael o 3 Ionawr 2018.

Mae Funds for Women Graduates (FFWG) yn cynnig Grantiau Sylfaen i helpu merched graddedig gyda'u costau byw (nid ffioedd) yn ystod blwyddyn olaf eu hastudiaethau PhD neu DPhil tra byddant wedi cofrestru i astudio neu i gynnal gwaith ymchwil mewn sefydliad Addysg Uwch a gymeradwywyd yn y DU. Mae FFWG hefyd yn cynnig grantiau argyfwng i ferched graddedig sy'n wynebu argyfwng ariannol annisgwyl (ar wahân i gostau ffioedd). Cysylltwch â 01743 383047 neu grants@ffwg.org.uk am fwy o wybodaeth.

Mae'r **Gilchrist Educational Trust** yn ystyried ceisiadau am grantiau ar gyfer unigolion sydd wedi gwneud darpariaeth briodol i ariannu gradd neu gwrs Addysg Uwch ond sy'n wynebu anawsterau ariannol annisgwyl a all eu hatal rhag cwblhau'r cwrs neu radd. Rhaid i ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr llawn-amser mewn Prifysgol ym Mhrydain. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â 01743 383047 neu gilchrist.et@gmail.com.

Mae **Ymddiriedolaeth Thomas Wall** yn rhoi grantiau i helpu unigolion sy'n wynebu rhwystr rhag cael gwaith neu addysg ac na allant dalu am eu hyfforddiant mewn unrhyw ffordd arall, drwy gael grant neu fenthyciad statudol, er enghraifft. Mae grantiau ar gael i'r rhai sy'n astudio cwrs technegol neu gwrs sy'n seiliedig ar sgiliau **islaw lefel gradd** ac sy'n gallu dangos angen dybryd.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cymorth i israddedigion neu ôl-raddedigion. Rhaid i ymgeiswyr fod yn 16 oed neu'n hŷn, mae'n rhaid iddynt fod yn byw yn y DU ers o leiaf dair blynedd cyn dechrau eu cwrs a rhaid iddynt fod wedi cael caniatâd i weithio yn y DU. Mae gwybodaeth fanylach ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth Thomas Wall neu drwy anfon e-bost i information@thomaswalltrust.org.uk.

Mae'n bosibl gwneud cais am grant unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Nid yw grantiau fel arfer yn fwy na £1,000 a gellir ei ddefnyddio i helpu i dalu costau ffioedd, offer neu unrhyw gostau perthnasol eraill.

Mae'r elusen **Lawrence Atwell** yn darparu cymorth ariannol ar ffurf grantiau i bobl ifanc rhwng 16 a 26 oed sydd wedi'u lleoli yn y DU. Mae cymorth ariannol ar gael i helpu tuag at gostau hyfforddiant galwedigaethol neu offer sy'n hanfodol ar gyfer gwaith. Nod yr elusen yw cynorthwyo pobl ifanc sy'n dod o gefndir incwm isel i gael y cymwysterau neu'r offer i weithio yn yr yrfa o'u dewis. Rhaid i ymgeiswyr fod yn ddinesydd Prydeinig, yn geisiwr lloches neu'n ffoadur sydd wedi dod i Brydain, neu mae'n rhaid iddynt fod yn byw yn y DU ers tair blynedd cyn dechrau eu cwrs.

Mae mwy o wybodaeth fanwl ar gael ar wefan yr elusen neu drwy gysylltu â **(020) 72.13.0561** neu **atwell@skinnners.org.uk**. Nid oes dyddiad cau penodol ar gyfer ceisiadau, a chânt eu hystyried ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu.

Benthyciadau Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa (PCDL)

Benthyciadau gan y banc yw Benthyciadau Proffesiynol a Datblygu Gyrfa, a gallwch eu defnyddio i dalu am gyrsiau a hyfforddiant.

Y prif wahaniaeth rhwng y math hwn o fenthyciad banc a benthyciad arferol yw bod y llog arno'n is ac mae'r llywodraeth yn talu'r llog i chi tra byddwch yn astudio.

Mae'r cynllun ar fin dod i ben felly rhaid i chi wneud cais erbyn 25 Ionawr 2019.

Rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydeinig 18 oed neu hŷn. Rhaid i chi hefyd fod yn byw yn y DU ers 3 blynedd o leiaf cyn i'ch cwrs ddechrau a rhaid i chi fod yn bwriadu gweithio yn y DU, **[yr Undeb Ewropeaidd](#)** (EU) neu **[Ardal Economaidd Ewropeaidd](#)** (AEE) ar ôl cwblhau'r cwrs (bydd y lincs yn dangos pa wledydd sy'n cyfrif).

Gallwch fenthyg rhwng £300 a £10,000 ar gyfer cyrsiau llawn amser neu ran amser. Yn ogystal â'r meini prawf uchod, i gael benthyciad, rhaid i'ch cwrs:

- bara hyd at 2 flynedd yn unig, neu 3 blynedd os yw'n cynnwys blwyddyn o brofiad gwaith;
- bod ar gael mewn sefydliad sydd ar gofrestr y Benthyciad Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa;
- eich helpu i ddatblygu'ch gyrfa – nid oes raid iddo arwain at gymhwyster.

Cewch ragor o fanylion drwy ffonio llinell wybodaeth PCDL ar **0800 100 900** yn ogystal â **[gwefan GOV.UK](#)**.

5. Rhagor o wybodaeth

Mae rhestr o ymddiriedolaethau, elusennau a sefydliadau yn y DU sy'n darparu cyllid ôl-raddedig i'w chael ar wefan **Prospects**. Hefyd, mae **Hot Courses**, **Scholarship Search**, **Postgraduate studentships** a **Student Cash Point** yn cynnwys cronfeydd data ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth am **grantiau i fyfyrwyr**, **benthyciadau**, **bwrsariaethau**, **ysgoloriaethau** a **chyllid**.

Mae **Turn2us** yn wasanaeth elusennol sy'n cynnig gwasanaeth tebyg gan gynorthwyo pobl i ddod o hyd i ffynonellau cymorth ariannol addas a gwneud ceisiadau amdanynt, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Gall cronfa ddata Turn2Us gynorthwyo pobl i ddod o hyd i wybodaeth am fudd-daliadau lles, **grantiau**, **cronfeydd lles** a **chymorth arall**.

Mae'r **Grants Register**, a gyhoeddir yn flynyddol, yn rhoi manylion am filoedd o gyfleoedd cyllido ledled y byd. Mae'r **Directory of Grant Making Trusts**, a gyhoeddir yn flynyddol gan y Sefydliad Cymorth i Elusennau, hefyd yn darparu gwybodaeth am ffynonellau grantiau perthnasol. Mae'r llyfrau hyn ar gael gan wasanaethau gyrfaoedd neu mewn llyfrgelloedd lleol.

Elusen gofrestredig sy'n ymroddedig i hyrwyddo addysg ôl-raddedig yn y Deyrnas Unedig yw'r **National Postgraduate Committee**. Nid yw gweithgareddau'r pwyllgor hwn yn cynnwys rhoi nawdd ariannol i unigolion na chysiau ond mae adran ar y wefan sy'n rhoi gwybodaeth ac yn amlinellu **ffynonellau cymorth ariannol** sydd ar gael i ôl-raddedigion sy'n astudio yn y DU.